OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 679 (Cy.67)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004

Wedi'u gwneud - -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 128(4)(b) a (c) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004 a deuant i rym ar 1 Awst 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw yn ddydd Sadwrn, Sul, neu yn ŵYl y Banc; ac

ystyr "y Prif Arolygydd" ("*the Chief Inspector*") yw Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru(**2**).

Cynllun gweithredu

2.—(1) Rhaid cyhoeddi datganiad o dan adran 128 o Ddeddf 2000 ("cynllun gweithredu") o fewn cyfnod o 50 diwrnod gwaith (mae hwn yn gymwys p'un ai bod gofyn cyfieithiad a'i pheidio), o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad priodol o dan drefniadau a wnaed gan y Prif Arolygydd.

(2) Rhaid cyhoeddi'r cynllun gweithredu drwy sicrhau ei fod ar gael yn swyddfeydd y person a y gwasanaeth a arolygwyd, i'w archwilio ddarparodd gan aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol, ac ar unrhyw wefan sydd gan y person hwnnw, sydd yn gysylltiedig a'r gwasanaeth.

(3) Rhaid danfon copi o'r cynllun gweithredu yn rhad ac am ddim at bob un o'r canlynol —

(a) y Prif Arolygydd;

(**1**) 2000 p.21.

(**2**) *Gweler* adran 4 o Ddeddf Ymchwiliadau Ysgolion (p.57). Amnewidiwyd y teitl presennol, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant gan adran 73(1) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.